Y SYMBOL ANABLEDD

Mae'r Ganolfan Byd Gwaith wedi dyfarnu'r Symbol Anabledd i'r Cyngor i gydnabod ei ymrwymiad i gyflogaeth pobl anabl.

Mae'r Symbol yn sicrhau fod y Cyngor, drwy 5 ymrwymiad penodol, yn cynnig pob cyfle posibl i aelodau o staff sydd ag anableddau.

1. Cyfweld pob ymgeisydd gydag anabledd sy'n cyrraedd isafswm meini prawf ar gyfer swydd wag ac yn eu hystyried ar eu gallu.

2. Sicrhau fod dull ar gael i drafod gydag aelodau anabl o'r staff ar unrhyw amser, ond o leiaf unwaith y flwyddyn, yr hyn y medrir ei wneud i sicrhau y medrant ddatblygu a defnyddio eu galluoedd.

3. Gwneud pob ymdrech pan ddaw aelodau o'r staff yn anabl i sicrhau eu bod yn aros mewn cyflogaeth.

4. Gweithredu i sicrhau fod aelodau allweddol o staff yn datblygu'r lefel addas o ymwybyddiaeth anabledd sydd ei angen i wneud i'n hymrwymiadau weithio.

5. Bob blwyddyn, i adolygu'r pum ymrwymiad a'r hyn a gyflawnwyd, i gynllunio ffyrdd i'w gwella a gadael i aelodau staff a'r Ganolfan Byd Gwaith wybod am gynnydd a chynlluniau ar gyfer y dyfodol.